**CAW9 Unigolyn**

# Ymgynghoriad ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

**Tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer Craffu Cyfnod 1 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).**

## Amdanoch Chi

Unigolyn

## 1. Egwyddorion cyffredinol y Bil

### 1.1 A ydych yn cefnogi egwyddorion y Bil Cwricwlwm ac Asesu(Cymru)?

8

### 1.2 Amlinellwch eich rhesymau dros eich ateb i gwestiwn 1.1

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,500 o eiriau)*

Cefnogi'r angen am gwricwlwm newydd a fydd yn paratoi plant a phobl ieuainc Cymru ar gyfer wynebu cyfleoedd a heriau'r 21ain ganrif. Croesawu'n fawr y ffaith y bydd hwn yn Gwricwlwm unigryw i Gymru a chefnogi'r egwyddorion sydd wedi fframio'r Pedwar Diben.

Mae'r pwyslais ar ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd ac ar alluogi ysgolion i gynllunio meysydd llafur i gwrdd ag anghenion disgyblion ar lefel leol i'w groesawu. Ond mae peryglon mawr yn y ffaith nad yw argymhellion a chyhoeddiadau Llywodraeth Cymru yn cynnig digon o arweiniad ar gynnwys y meysydd llafur y dylai ysgolion eu mabwysiadu. Mae'r cyd-bwysedd wedi gwyro'n ormodol tuag at benrhyddid i ysgolion ddehongli sut y maent yn mynd i drosi gofynion syniadaethol (cwbl dderbyniol) y cwricwlwm newydd yn raglenni astudio ymarferol.

Amlygir y diffyg hwn yng nghyd-destun hanes Cymru. Gan fod yr adroddiad Y Cwricwlwm Cymreig, stori a hanes Cymru (2013) wedi dangos yn glir iawn y diffyg sylw dybryd i hanes Cymru mewn llawer o ysgolion, roedd yn siomedig iawn na wnaeth y Gweinidog Addysg dderbyn argymhelliad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y dylid dynodi corff cyffredin o wybodaeth greiddiol ar gyfer pob ysgol yng Nghymru. Byddai hynny'n gam pwysig tuag at sicrhau bod dysgwyr yn cael "eu gwrieddio yn eu diwylliannau eu hunain a

bod â hunaniaeth gref yn eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach" (Canllaw i Gwricwlwm Cynmru 2022).

**1.3 A ydych yn credu bod angen deddfwriaeth i gyflawni'r hyn y mae'r Bil hwn yn ceisio'i gyflawni?**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

-

## 2. Gweithredu'r Bil

**2.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am unrhyw rwystrau posibl rhag gweithredu'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 3.1**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

-

**2.2 A ydych yn credu bod y Bil yn ystyried y rhwystrau posibl hyn?**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

-

## 3. Canlyniadau anfwriadol

**3.1 A ydych yn credu bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil? Os na, ewch i gwestiwn 4.1**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

Sefydlu Cwricwlwm i Gymru yw'r nod ond tybed ai'r hyn a gawn fydd amrywiaethau mor sylweddol o ysgol i ysgol fel na fydd modd canfod cwricwlwm cyffredin y tu hwnt i'r strwythur gorfodol?

## 4. Goblygiadau ariannol

**4.1 A oes gennych farn am oblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol)? Os nad oes, ewch i gwestiwn 5.1**

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau)*

| |
|---|
| - |

## 5. Pwerau I wneud is-ddeddfwriaeth

**5.1 A oes gennych unrhyw sylwadau am addasrwydd y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth (fel y'i nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol)? Os nad oes, ewch i gwestiwn 6.1.**

(*byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 500 o eiriau.*)

| |
|---|
| - |

## 6. Ystyriaethau eraill

### 6.1 A oes gennych unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu gwneud am y Bil hwn?

*(byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb o dan oddeutu 1,000 o eiriau)*

| |
|---|
| - |
| |